

Addysg / Education
Gwasanaeth Adnoddau /
Resources Service

ATODIAD 1

Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ owenowens@gwynedd.llyw.cymru

8 Hydref 2021

I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd, Uwchradd, Dilydol ac Arbennig

Ymgynghori ar newid dull dyrannu cyllid Cynnal Tiroedd ysgolion

Annwyl gyfaill

Mae Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi cymeradwyo ymgynghoriad gydag ysgolion ar y bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Mae'r llythyr hwn yn ymgynghori â chi ynglŷn â'ch cefnogaeth (neu beidio) i newid y dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd presennol.

Os ydych o blaid newid, gofynnir i chi nodi os ydych yn ffafrio **Model 1** ynteu **Model 2** (gweler **Atodiad 1**).

Fe'ch gwahoddir hefyd i gyflwyno unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion.

Cefndir

Mae'r ymgynghoriad hwn yn deillio o eitem a gyflwynwyd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 'Dull Dyrannu Cyllid Cynnal Tiroedd Ysgolion' oedd yn cyflwyno'r bwriad o ail-fodelu dyraniadau ysgolion i fod yn agosach i fod ar sail anghenion y safleoedd yn hytrach nac ar sail hanesyddol.

Mae'r gwaith o adnabod yr Oriau Craidd sydd eu hangen ar gyfer cynnal tiroedd pob ysgol bron wedi'i gwblhau. Mae colofn yn **Atodiad 1** yn cyfeirio at Oriau Craidd pob ysgol. Lle nad yw'r ffigur ar gyfer Oriau Craidd ysgol wedi'i gadarnhau eto, fe amlygir hynny.

Diffinnir Oriau Craidd safle fel yr oriau gwaith cynnal tiroedd fyddai ei angen er mwyn sicrhau gwasanaeth o lefel priodol sydd yn ddigonol/addas i gynnal digwyddiadau a gynhelir, sicrhau lles a diogelwch y disgyblion ynghyd â chynnal safon weledol a chadwriaethol y safle.

Modelau dyrannu posib

Model 1

Cymryd **dyraniad cynnal tiroedd presennol fesul sector** ysgol a'i **ail-ddosbarthu o fewn y sector** mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn y sector

Model 2

Cymryd **cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol** i ysgolion a'i **ail-ddosbarthu ar draws pob ysgol** mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.

Mae **Atodiad 1** yn dangos yr effaith fesul ysgol o ddefnyddio'r ddau fodel uchod mewn cymhariaeth â dyraniad cyllid cynnal tiroedd 2021-22.

Gofynnaf am ymateb eich ysgol i'r cynnig o newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 **erbyn dydd Gwener, 12 Tachwedd, 2021**. Yn dilyn hynny byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion nesaf, gydag argymhelliad y Fforwm yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Cabinet. Os bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r cynnig mi fydd yn weithredol o 1 Ebrill, 2022.

Ymateb yr Ysgol

O safbwynt newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 a fyddwch yn datgan os ydy'r ysgol:

Rhif Ysgol:		Enw Ysgol:	
-------------	--	------------	--

O Blaid Model 1 :	
O Blaid Model 2:	
Yn erbyn newid:	
Dim barn:	
Sylwadau:	

Dychwelwch eich ymateb i Annie Sanson (anniesanson@gwynedd.llyw.cymru) erbyn dydd Gwener, 12 Tachwedd, 2021.

Diolch

Owen Owens

Owen Owens
Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)